


**HOOF!**
**BE I'W DDISGWYL…**

Gwyddom fod perfformio byw yn gallu bod yn drech na rhai plant, yn enwedig os nad ydyn nhw'n hoffi twrw mawr neu ddigwyddiadau annisgwyl. Mae'r daflen yma'n rhoi manylion rhai o'r munudau allweddol yn ystod ein perfformiad o **HOOF!** Cofiwch rannu'r wybodaeth yma â'ch plentyn os bydd yn gymorth iddo gael blas ar y sioe.

Rydym yn cymell eich plentyn i wneud sŵn yn ystod y perfformiad ac i ymuno yn y dawnsio os ydi am wneud hynny. Os bydd eich plentyn yn cynhyrfu neu'n cael y profiad yn drech nag ef, mae croeso i chi ymbellhau o'r man perfformio, gwylio o bell neu ddod yn ôl pan fyddwch yn barod.

- Perfformiad pum munud ar hugain ydi **HOOF!**, am dri charw sy'n dod o hyd i theatr anghyfannedd
- Perfformir y sioe gan dair dawnswraig yn rolau'r ceirw. Maen nhw wedi'u gwisgo fel ceirw, ond does yma ddim masgiau na phennau ffug.
- Does dim iaith yn ystod y darn ar wahân i'r gair 'hoof.'
- Mae'r theatr deithiol wedi'i goleuo gan oleuadau lliwgar o gwmpas ymyl y set. Mae'r goleuadau yma'n fflachio, ond dydyn nhw ddim yn strobio.
- Mae'r sioe'n cychwyn ag ymddangosiad y ceirw. Maen nhw'n ymddangos o lefydd annisgwyl, yn gwneud sŵn tapio wrth fynd. Ffyn (coesau blaen y ceirw) sy'n gwneud y sŵn tapio, a hefyd y sgidiau tap sydd am eu traed. Maen nhw'n dod o'u cuddfannau ac i'r llwyfan. Mae hyn yn bur agos at y gynulleidfa.
- Drwy gydol y perfformiad mae yna lawer o gerddoriaeth yn gyfeiliant i'r ceirw ddawnsio. Mae'r dawnsio'n gwneud sŵn oherwydd y sgidiau tap sydd am eu traed.
- Tua dechrau'r perfformiad, mae'r ceirw'n tacluso ac yn glanhau'r llwyfan maen nhw wedi taro arno. Yn rhan o'r gwaith yma, maen nhw'n agor hatsh yn llawr y llwyfan ac mae swigod yn dechrau dod i'r golwg drwyddi ac yn nofio i ffwrdd.
- Yn ystod y perfformiad, mae'r ceirw'n dod o hyd i falŵn. Ar ddiwedd dawns fer gyda'r balŵn, mae'n rhoi clec yn annisgwyl pan gyffyrdda'r nenfwd.
- Mae yna funud yn y sioe pan fydd y ceirw'n perfformio sioe hud fer. Mae un o'r ceirw'n gwneud i gwnhingen ymddangos mewn het. Mae yna funud fach o beryg pan fydd un arall o'r ceirw'n dangos llif gogio fach. Mae'r gwningen yn dianc yn sydyn!

**Gobeithio y cewch chi flas ar y sioe!**